Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Competition Brief

## Competition Title

Inclusive Skills - Basic Woodworking

## Competition Overview

Woodworkers prepare, cut, fit and assemble wood for things such as building frameworks, doors, and windows on both commercial and residential projects.

In this competition, competitors are required to measure, mark out and form some basic joints to create a basic box and lid which can be used (competitors will take the completed task home at the end of competition)

Competitors are also required to mark out 2 halving joints and present for marking before forming the joint, using hand tools only.

Live competition heats will be held at various venues across Wales.

## Entry Criteria

The competition is for learners working towards Entry Level 3.
A statement of support outlining any individual needs of the participant within the competition must be submitted by 16th December 2022 along with their entry form.
Please ensure that your entrants have the skills and competences to complete the task. For the Inclusive Skills guidance please click here.

## Entry capacity restrictions by organisation

Maximum of up to 3 per location plus maximum of 3 reserves can be registered incase of absence..
This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition.
This is determined by 'location' and 'organisation'. 'Organisation' refers to the competitors' training provider/employer. 'Location' refers to a site where the competitor studies / is employed. For further guidance on these capacities, click here

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2022 – Skills Competition Wales 2022

**Task Duration**
3 Hours

## Brief

Competitors are required to measure, mark out and form some basic joints to create a basic box and lid which can be used. They are also required to produce two halving joints. They will be marked on the neatness, accuracy of the work and safe working practices.

## Infrastructure List

Competitors are expected to bring their own tools. Work benches, vices and bench hooks will be supplied at the venue.

## Competition Rules

For full terms and conditions of entry and competition rules visit : www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions

**Competition specific rules**

- Contestants will start and finish work as instructed by the judges
- Contestants must respect the safety rules.
- The use of any electrical tool is forbidden. Only professional hand tools shall be used.
- Contestants must manage their time carefully in order to complete the box within the allocated time. It is strongly recommended that any assembling and glueing of parts be carried out before the morning or afternoon break, so they are then able to remove the clamps and complete their work.
- If any defects are found, contestants can have the parts replaced before the beginning of the competition. Two (2) points shall be deducted for any replacements requested once the competition has begun. Furthermore, contestants may only request the replacement of 1 part maximum.
- Contestants are allowed to use a quick-setting glue.
- The jury will inspect the contestants' toolboxes before the competition. Any tool that gives a clear advantage to its user will be removed.
- If during the competition a contestant feels they must leave their work (eg. medical reasons, toilet break), they will have the time recorded on a 'time out' sheet by a member of staff.

**Generic competition rules**

- Mobile phones are to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.

- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and Assessment

Marking and judging of this competition will be carried out by a team of experts from Industry, Further Education or Training Provider, using a marking criteria and allocated marks to ensure consistency.

Brief breakdown of marking and assessment.
All marks are objective and will be awarded by the judges as follows

| | | |
|---|---|---|
| A | Effective use of space available/set up of work area/tool preparation | 5 |
| B | Communication with Judges | 5 |
| C | Task 1: Marking out of Housing Joints | 8 |
| D | Task 1: Measurements, neatness, correct use of components | 57 |
| E | Task 2: Marking out joints | 25 |
| F | Safe use of Hand Tools & effective use of PPE | 20 |
| G | Sanding and Finishing of Task 1 | 10 |
| H | Overall appearance of Task 1 and 2 | 5 |
| | Total | 135 |

## Feedback and Recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition.

No results or awards will be awarded on the day as marking will be quality assured.

All competitors will be issued with a Participation Certificate and invited to an online Celebration Event which will be held Thursday 9th March 2023, where the First, Second and Third Awards will be announced. Further details will be communicated to competitors and their points of contacts by email.

Marksheets will be made available to competitors after the quality assurance process has been completed.

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2022 – Skills Competition Wales 2022

## Competition Lead

**Lead Contact:** Paul Evans
Email address - Paul2.evans@colegsirgar.ac.uk

# Briff y Gystadleuaeth

## Enw'r Gystadleuaeth

Sgiliau Cynhwysol – Gwaith Coed Sylfaenol

## Trosolwg o'r Gystadleuaeth

Mae'r rhai sy'n gweithio gyda choed yn paratoi, torri, ffitio a gosod pren at ei gilydd ar gyfer pethau fel fframweithiau adeiladu, drysau a ffenestri ar brosiectau masnachol ac mewn cartrefi.

Yn y gystadleuaeth hon, mae angen i gystadleuwyr fesur, nodi a ffurfio uniadau syml er mwyn creu bocs syml gyda chlawr y gellir ei ddefnyddio (bydd y cystadleuwyr yn mynd a'r dasg wedi ei chwblhau adre ar ddiwedd y gystadleuaeth).

Mae angen i gystadleuwyr hefyd fesur a nodi 2 uniad hanerog a chyflwyno'r gwaith i'w farcio cyn ffurfio'r uniad, gan ddefnyddio ffêr llaw yn unig. I gael y canllawiau Sgiliau cynhwysol cliciwch yma

Cynhelir rowndiau rhagbrofol byw mewn sawl lleoliad ledled Cymru.

## Meini Prawf

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio tuag at Lefel Mynediad 3.
Rhaid cyflwyno datganiad o gefnogaeth yn amlinellu unrhyw anghenion unigol sydd gan y cyfranogwr o fewn y gystadleuaeth ynghyd a'u ffurflen gais erbyn 16ed Rhagfyr.
Sicrhewch fod gan eich ymgeiswyr y sgiliau a'r gallu i gyflawni'r dasg.

## Cyfyngiadau ymgeisio gan sefydliad

Cyfanswm o hyd at 3 i bob lleoliad a gellir cofrestru uchafswm o 3 wrth gefn rhag ofn absenoldeb.
Dyma'r mwyafswm o gystadleuwyr a ganiateir gan sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon.
Caiff hyn ei benderfynu ar sail 'lleoliad' a 'sefydliad'. Mae 'sefydliad' yn cyfeirio at ddarparwr hyfforddiant/cyflogwr y cystadleuwyr. Mae 'lleoliad' yn cyfeirio at y safle lle mae'r cystadleuydd yn astudio/cael ei gyflogi. Am ragor o arweiniad ar y canllawiau hyn, cliciwch yma

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2022 – Skills Competition Wales 2022

**Hyd y Dasg**
2 Awr

## Briff

Mae angen i gystadleuwyr fesur, nodi a ffurfio uniadau syml er mwyn creu bocs syml gyda chlawr y gellir ei ddefnyddio. Mae angen iddyn nhw hefyd gynhyrchu dau uniad haneru. Caiff y rhain eu marcio ar sail taclusrwydd, cywirdeb y gwaith ac arferion gweithio diogel.

## Rhestr Seilwaith

Mae disgwyl i gystadleuwyr ddod â'u hoffer eu hunain. Caiff meinciau gwaith, feisys a bachau mainc eu darparu yn y lleoliad.

## Rheolau'r Gystadleuaeth

I weld y telerau ac amodau cystadlu a rheolau'r gystadleuaeth ewch i:
[www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions](http://www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions)

**Rheolau penodol ar gyfer y gystadleuaeth hon**

- Bydd y cystadleuwyr yn dechrau a gorffen y gwaith yn unol â chyfarwyddiadau'r beirniaid.
- Rhaid i gystadleuwyr barchu'r rheolau diogelwch.
- Gwaherddir y defnydd o unrhyw offer trydanol. Ni ddylid ond defnyddio offer llaw proffesiynol.
- Rhaid i gystadleuwyr reoli eu hamser yn ofalus er mwyn cwblhau'r bocs o fewn yr amser penodedig. Argymhellir yn gryf bod unrhyw waith adeiladu a gludo darnau yn digwydd cyn egwyl y bore neu'r prynhawn, fel eu bod wedyn yn gallu tynnu'r clampiau a gorffen eu gwaith.
- Pe canfyddir unrhyw feiau, gall cystadleuwyr gael darnau yn eu lle cyn dechrau'r gystadleuaeth. Caiff dau (2) bwynt eu tynnu ar gyfer unrhyw ddarnau newydd y gofynnir amdanynt ar ôl i'r gystadleuaeth ddechrau. Ymhellach, ni all cystadleuwyr ofyn am fwy nag un darn newydd ar y pwynt yma.
- Mae hawl gan gystadleuwyr ddefnyddio glud sy'n sychu'n gyflym.
- Bydd y panel beirniadu yn archwilio bocsys offer y cystadleuwyr cyn y gystadleuaeth. Caiff unrhyw declyn sydd yn rhoi mantais glir i'w ddefnyddiwr ei dynnu oddi yno.
- Os yw ymgeisydd yn teimlo ei fod yn gorfod gadael ei waith yn ystod y gystadleuaeth (e.e. rhesymau meddygol, ymweld â'r tŷ bach), bydd yr amser yn cael ei gofnodi ar daflen 'amser allan' gan aelod o staff.

**Rheolau cyffredinol**

- Rhaid diffodd ffonau symudol yn ystod y gystadleuaeth ei hun.
- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth drwy glustffonau yn ystod y gystadleuaeth ei hun.

- Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn ystod gweithgaredd y gystadleuaeth i banel beirniadu'r gystadleuaeth.
- Ni ddylai cystadleuwyr gyfathrebu gyda chystadleuwyr eraill yn ystod y gystadleuaeth ei hun.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd yw cyrraedd ar amser ar gyfer pob sesiwn gystadlu. Ni chaniateir rhagor o amser os byddwch yn cyrraedd yn hwyr.
- Dylid adrodd am unrhyw fethiant technegol yn eich offer ar unwaith i'r panel beirniadu. Caiff y cystadleuydd amser ychwanegol os yw'r nam y tu hwnt i reolaeth.

## Marcio ac Asesu

Bydd tîm o arbenigwyr yn y byd Diwydiant, Addysg Bellach neu Ddarparwr Hyfforddiant yn marcio a beirniadu'r gystadleuaeth hon a byddant yn defnyddio meini prawf marcio a marciau sydd wedi eu pennu er mwyn sicrhau cysondeb.

Dadansoddiad cryno o'r marcio ac asesu.
Mae pob marc yn wrthrychol a byddant yn cael eu dyfarnu gan y beirniaid fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| A | Defnydd effeithiol o'r gofod sydd ar gael/trefniant yr ardal weithio/paratoi offer | 5 |
| B | Cyfathrebu gyda'r beirniaid | 5 |
| C | Tasg 1: Mesur a Nodi Uniadau Rhigol | 8 |
| D | Tasg 1: Mesuriadau, taclusrwydd, defnydd cywir o gydrannau | 57 |
| E | Tasg 2: Nodi'r uniadau | 25 |
| F | Defnydd diogel o Offer Llaw a defnydd effeithiol o Offer Diogelu Personol | 20 |
| G | Sandio a Chaboli Tasg 1 | 10 |
| H | Ymddangosiad cyffredinol Tasg 1 a 2 | 5 |
| | Cyfanswm | 135 |

## Adborth a Chydnabyddiaeth

Bydd adborth ar lafar yn cael ei roi i Unigolion a Grwpiau ar ddiwedd y gystadleuaeth.

Ni chaiff unrhyw ganlyniadau na dyfarniadau eu cyflwyno ar y diwrnod gan y byddwn yn marcio

drwy sicrhau ansawdd.

Bydd pob cystadleuydd yn cael Tystysgrif Cyfranogi ac yn cael ei wahodd i Ddigwyddiad Dathlu ar-lein a gynhelir Dydd Iau 9eg Mawrth 2023, lle bydd y Wobrau Cyntaf, Ail a Thrydedd yn cael eu cyhoeddi. Bydd manylion pellach yn cael eu cyfleu i gystadleuwyr a'u pwyntiau cyswllt trwy e-bost.

Bydd taflenni marciau ar gael i gystadleuwyr ar ôl i'r broses sicrhau ansawdd gael ei chwblhau.

## Arweinydd y Gystadleuaeth

**Prif Gyswllt:**

Paul Evans

Email address - Paul2.evans@colegsirgar.ac.uk